

Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus Dogfen Ymgynghori

28 Mehefin – 09 Awst 2019

Ymgynghoriad

Nod statudol Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Mae gennym ystod eang iawn o ddyletswyddau, rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys bod yn brif reoleiddiwr amgylcheddol y genedl, sy'n cwmpasu ystod eang o sectorau a gweithgareddau. Un ffordd o wneud hyn yw trwy ddyroddi hawlenni a thrwyddedau.

Un o ofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 yw paratoi datganiad cyfranogiad cyhoeddus ('datganiad'). Mae'r datganiad hwn yn manylu sut, pryd a beth fyddwn ni'n ymgynghori yn ei gylch ynghylch ceisiadau am hawlenni a thrwyddedau, gan gynnwys ein hagwedd at geisiadau sy'n ennyn cryn dipyn o ddiddordeb cyhoeddus.

Rydym wedi adolygu ein Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus ac rydym yn gofyn am eich barn ar y ddogfen ddrafft.

Bydd ein hymgynghoriad yn cynnwys proses ymgynghori cyhoeddus ar y we, a fydd ar agor am chwe wythnos.

Ar ôl darllen y ddogfen hon, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1. Ydy hi'n hawdd a chyflym i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch?

Cwestiwn 2. Oes unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnoch wedi diflannu?

Cwestiwn 3. Ydy ein cylch gwaith cyfreithiol yn ddigon clir o ran sut byddwn ni'n ymgynghori â chi a sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriad?

Cwestiwn 4. Ydy hi'n ddigon clir pryd a sut byddwn ni'n ymgynghori â chi a sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriad?

Cwestiwn 5. Ydy adran 6 yn rhoi dealltwriaeth well o pryd allem ni benderfynu a yw'r cais o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol (HPI) a'r camau ychwanegol y gallem eu cymryd ar gyfer y ceisiadau hyn?

Cwestiwn 6. Dywedwch wrthym os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach na chawsant eu cynnwys yn y cwestiynau blaenorol.

Anfonwch eich ymatebion erbyn 09 Awst 2019. Mae'r manylion ymateb ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon.

Cynnwys

Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru – DRAFFT ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus	4
Crynodeb	4
Newidiadau i ymgynghoriadau ar Drwyddedu Morol	4
Cyflwyno ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein	5
Crynodeb o adrannau diwygiedig y Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus	5
Rhan 1 – Beth yw'r datganiad hwn?	5
Rhan 2 – Sut rydym ni'n gwneud ein penderfyniadau?.....	5
Rhan 3 – Ydy hawlenni a thrwyddedau yr un fath â chaniatâd cynllunio?	5
Rhan 4 – Beth yw ein cylch rheoleiddio?	6
Rhan 5 – Pryd rydym ni'n ymgynghori?	6
Rhan 6 – Sut rydym yn rheoli ceisiadau o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol?.....	6
Rhan 7 – Sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriad?	6
Rhan 8 – Pwy arall rydym ni'n ymgynghori â nhw?	6
Rhan 9 – Sut rydym ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'n penderfyniadau terfynol?	6
Rhan 10 – Sut rydym ni'n ymgynghori ar Drwyddedau Rheolau Safonol newydd?.....	6
Rhan 11 – Sut rydym yn dilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gydag ymatebion ymgynghori?.....	7
Sut i ymateb.....	7

Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru – DRAFFT ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

Crynodeb

Mae Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus (Datganiad) yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer ceisiadau sy'n rhan o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) fel safleoedd gwastraff, gosodiadau a cheisiadau ansawdd dŵr.

Fodd bynnag, rydym wedi defnyddio'r cyfle hwn i ehangu cylch gwaith y PPS yn wirfoddol i gwmpasu mwy o gyfundrefnau trwyddedu a thrwyddedu CNC gan ein bod yn credu bod hyn yn arfer gorau ac yn cefnogi gofynion deddfwriaeth berthnasol Cymru.

Felly, bydd y drafft diwygiedig yn cynnwys y canlynol

- Trwyddedu EPR (Gwastraff, Gosodiadau ac Ansawdd Dŵr)
- Trwyddedu Adnoddau Dŵr
- Trwyddedu Morol
- Trwyddedu Gweithgareddau Perygl Llifogydd
- Trwyddedu Coedwigaeth (Trwyddedau Cwmpo Coed)
- Trwyddedu Rhywogaethau

Mae'r Datganiad yn esbonio:

- pryd a sut byddwn ni'n ymgynghori â chi yn ystod ein prosesau penderfynu ar hawlenni a thrwyddedu
- beth allwn ni eu hystyried, a ddim eu hystyried, yn gyfreithiol
- sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriadau
- gwybodaeth arall a all fod yn ddefnyddiol i chi fel rhan o'n prosesau ymgynghori.

Newidiadau i ymgynghoriadau ar Drwyddedu Morol

Rydym hefyd wedi defnyddio'r cyfle hwn i wella a moderneiddio sut rydym yn rheoli ymgynghoriadau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau morol.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi geiriad i'r ymgeisydd iddynt osod hysbysiad mewn cyhoeddiad e.e. papur newydd, o'u dewis i gyrraedd y gynulleidfa darged fwyaf.

Credwn y byddai ymgynghoriadau yn fwy addas ac yn amlycach i'r cyhoedd petaent yn ymddangos ar ein gwefan, fel ein hymgynghoriadau ar gyfer ein meysydd eraill. Felly, rydym yn cynnig newid ein proses o hysbysebu ceisiadau'r Tîm Trwyddedu Morol fel a ganlyn:

- Bydd hysbysiad o'r cais yn ymddangos ar ein gwefan o fewn 30 diwrnod i'r cais 'a wnaed yn briodol'
- O ran ceisiadau sy'n cael eu hystyried gennym yn rhai o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol (HPI), efallai y byddwn yn ystyried rhoi hysbysiad mewn cyhoeddiad (fel papur newydd neu gylchgrawn) os ydym o'r farn y byddai hynny'n ychwanegu gwerth at yr ymgynghoriad penodol; er enghraifft, trwy gyrraedd cynulleidfa benodol na fyddai'r hysbysiad ar-lein yn ei chyrraedd yn yr achos penodol hwn (byddwn yn penderfynu ar hyn fesul achos).
- Hefyd, yn achos ceisiadau o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol, byddwn yn postio manylion ar ein cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r faith fod y cyfnod ymgynghori ar agor.

Cyflwyno ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein

Rydym newydd ddatblygu ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar-lein er mwyn symleiddio'r broses i'n cwsmeriaid.

Bydd y broses newydd yn caniatáu i bobl ymateb i ymgynghoriad trwy glicio ar fotwm ar y dudalen hysbysiad o ymgynghoriad, a fydd wedyn yn llwytho tudalen ar y we gydag adrannau i'r cwsmer eu llenwi. Bydd yn gofyn am rywfaint o wybodaeth bersonol fel enw, cyfeiriad e-bost a chod post (nid cyfeiriad llawn) - hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng ymatebion a'n helpu i nodi a yw'r diddordeb o'r ardal leol neu ymhellach, er mwyn ein helpu i benderfynu pa gamau pellach (os o gwbl) all fod angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod ein negeseuon yn cyrraedd partïon â diddordeb gydol y broses benderfynu. Ar ôl iddynt orffen ysgrifennu eu sylwadau, gallant glicio 'cyflwyno/anfon/submit' a bydd yr ymateb yn cael ei anfon yn awtomatig i'n mewnlwch ymgynghori.

Crynodeb o adrannau diwygiedig y Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus

Dyma grynodeb o bob adran o'r ddogfen ddrafft:

Rhan 1 – Beth yw'r datganiad hwn?

Mae'r adran hon yn crynhoi cynnwys y ddogfen.

Rhan 2 – Sut rydym ni'n gwneud ein penderfyniadau?

Mae'r adran hon yn pwysleisio'r gofynion cyfreithiol sy'n rhaid eu hystyried wrth wneud ein penderfyniadau, os yw ceisydd yn gallu profi ei fod yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol yna mae'n rhaid inni gyflwyno hawlen neu drwydded yn ôl y gyfraith.

Rhan 3 – Ydy hawlenni a thrwyddedau yr un fath â chaniatâd cynllunio?

Yn yr adran hon, rydym yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng hawlenni a thrwyddedau y gallem eu cyflwyno a'r caniatâd cynllunio a all gael ei roi gan Awdurdodau Lleol. Rydym wedi cynnwys yr adran hon gan ein bod ni'n cael sylwadau'n aml am faterion na allwn eu hystyried yn gyfreithiol gan nad ydynt yn rhan o'n cylch gwaith ni ond sy'n fater i Adran Gynllunio Awdurdod Lleol yn hytrach.

Rhan 4 – Beth yw ein cylch rheoleiddio?

Yn dilyn Rhan 3, mae Rhan 4 yn cynnwys rhagor o fanylion am ein cylch gwaith gydag enghreifftiau o'r hyn y gallwn, ac na allwn, eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau am hawlenni a thrwyddedau. Gobeithiwn y bydd yr adran hon yn helpu pobl i ddeall y materion y gallwn eu hystyried a'u gweithredu, gan roi gwell syniad iddynt o'r materion yr ydym am dderbyn sylwadau arnynt yn ein hymgyngoriadau, a materion na fyddant yn dylanwadu ar ein penderfyniad gan nad ydynt yn o fewn ein cylch gwaith.

Rhan 5 – Pryd rydym ni'n ymgynghori?

Mae'r adran hon yn rhestru'r mathau gwahanol o geisiadau yr ydym yn ymgynghori arnynt ac yn cynnwys diagram ar sut mae ymgynghoriad yn cyd-fynd â'n proses benderfynu.

Rhan 6 – Sut rydym yn rheoli ceisiadau o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol?

Yn yr adran hon, rydym yn esbonio y gall cais gael ei ystyried yn un o 'o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol' (HPI) unrhyw bryd yn ystod ein proses benderfynu, ac rydym hefyd yn rhoi enghreifftiau o rai o'r camau ychwanegol y gallem benderfynu eu cymryd unwaith inni benderfynu bod cais yn HPI.

Rhan 7 – Sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriad?

Dyma lle rydym yn rhestru'r ffyrdd gwahanol y gallwch chi ymateb i ymgynghoriad. Y brif ffordd yw trwy ddefnyddio'r ffurflen ymgynghori ar-lein newydd, a fydd yn ei gwneud ymateb yn llawer haws, cynt a mwy uniongyrchol – a dyma sydd orau sydd gennym ni hefyd. Bydd dewisiadau eraill ar gael, fel lawrlwytho copi o'r ffurflen ymateb i'w llenwi a'i dychwelyd atom trwy'r e-bost neu'r post, ac rydym yn cadw'r opsiynau e-bostio a phostio cyfredol ar agor hefyd. Byddant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhan 8 – Pwy arall rydym ni'n ymgynghori â nhw?

Mae'r adran hon yn rhestru enghreifftiau o'r sefydliadau rydym yn ymgynghori â nhw'n aml yn ystod ein proses benderfynu. Efallai y byddwn yn gwneud hyn i gael eu barn arbenigol neu oherwydd eu diddordeb yn y gweithgareddau dan sylw. Mae hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Rhan 9 – Sut rydym ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'n penderfyniadau terfynol?

Yma, rydym yn esbonio sut gallwch chi weld ein penderfyniadau terfynol trwy'n gwefan a'n cofrestr gyhoeddus ar-lein.

Rhan 10 – Sut rydym ni'n ymgynghori ar Drwyddedau Rheolau Safonol newydd?

Yn yr adran hon, rydym yn trafod ein proses ymgynghori â chi ar y Trwyddedau Rheolau Safonol newydd (nid ceisiadau SRP ond trwyddedau newydd y gall pobl wneud cais amdanynt wedyn).

Rhan 11 – Sut rydym yn dilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gydag ymatebion ymgynghori?

Mae'r adran hon yn esbonio sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol unwaith inni dderbyn ymateb i ymgynghoriad.

Sut i ymateb

Anfonwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 09th Awst 2019 trwy

trwy e-bostio: permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

neu drwy'r post i: Ymateb i Ymgynghoriad, Gwasanaeth Trwyddedu, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP